| | |
|---|---|
| Teitl y gweithgaredd: | Gwasanaeth Ysgol Gyfan |
| Disgrifiad: | Geiriau - cyfle i ni ystyried sut rydym yn defnyddio geiriau er daioni yn hytrach nag er drygioni. |
| Blynyddoedd: | Ysgol gyfan |
| Testun: | Dim |
| Offer angenrheidiol: | Dim<br>Dewisol: Llun o Dylan Thomas a rhai o'i lyfrau. |
| Dull a awgrymir: | Gofynnwch i'r dysgwyr ble mae geiriau'n cael eu defnyddio o'n cwmpas, e.e.<br>- mewn papurau newydd i drosglwyddo gwybodaeth<br>- ar arwyddion i'n rhybuddio am beryglon<br>- wrth ddweud jôcs<br>- wrth adrodd straeon<br>- wrth roi cyfarwyddiadau.<br><br>Mae awduron yn defnyddio geiriau i ysgrifennu pob math o lyfrau, dramâu, rhaglenni teledu a hyd yn oed *apps*.<br><br>Roedd Dylan Thomas, awdur Cymraeg enwog, yn caru geiriau a'r seiniau roeddent yn eu gwneud. Ysgrifennodd gerddi, dramâu a straeon gan ddefnyddio geiriau oedd yn peintio llun yn ein dychymyg. Fel mae arlunydd yn dewis ei liwiau'n ofalus, roedd Dylan Thomas yn dewis ei eiriau'n ofalus iawn pan oedd yn ysgrifennu. (Gellid dangos llun o'r awdur a chyfeirio at ei lyfrau, gan ddarllen pwt o un ohonynt.)<br><br>Esboniwch fod angen i ni ddewis ein geiriau'n ofalus oherwydd gall geiriau newid y ffordd y mae pobl yn teimlo.<br>Gallwch ddefnyddio geiriau'n dda a gwneud i bobl deimlo'n well.<br>Os ydych wedi cwympo, mae cael rhywun yn gofyn a ydych yn iawn yn gallu gwneud i chi deimlo'n well. Pan fydd rhywun yn dweud diolch, gall wneud i ni deimlo'n gynnes braf. Pan fydd rhywun yn ein canmol ni, neu os ydynt yn dweud eu bod yn hoffi'r hyn ry ni'n ei wisgo, gall wneud i ni deimlo'n hapus.<br><br>Gofynnwch i'r dysgwyr sut maent yn teimlo pan fydd athro/athrawes neu ffrind yn dweud ei bod yn hoffi stori neu lun maen nhw wedi ei wneud. Mae'n gallu gwneud i chi deimlo'n dda/ yn hapus / yn gynnes. |

| | |
|---|---|
| | Esboniwch fod hyfforddwyr yn gallu defnyddio geiriau i'ch ysbrydoli i wneud eich gorau glas ar gae hoci/pêl-droed/rygbi.<br><br>Ewch ymlaen i sôn fod geiriau hefyd yn gallu gwneud niwed yn ogystal â gwneud daioni. Mae geiriau'n gallu cael eu defnyddio ar gyfer rhegi, hel straeon neu alw enwau.<br><br>Gall y geiriau yma gael eu dweud yn uchel, gael eu hysgrifennu neu gael eu teipio ar rwydweithiau cymdeithasol.<br>Gofynnwch i'r dysgwyr sut mae geiriau cas yn gallu gwneud iddynt deimlo.<br>Gall clywed, neu ddarllen geiriau angharedig amdanoch wneud i ni deimlo'n drist ac unig. Gall wneud i ni deimlo'n anhapus.<br><br>Mae'r Beibl yn dweud: " Y mae tafod tyner yn bren bywiol, ond tafod garw yn dryllio'r ysbryd."<br><br>Mae hyn yn golygu y dylem ddefnyddio geiriau i wneud i'n gilydd deimlo'n hapus, nid i wneud i'n gilydd deimlo'n drist. Mae dewis ein geiriau'n ofalus, fel yr awdur Dylan Thomas, yn gallu ein helpu ni i wneud hynny. |
| Gweddi: | O Arglwydd,<br>Gad i ni gofio bod geiriau yn gallu cael eu defnyddio ar gyfer pethau da a phethau drwg.<br>Gad i ni ddewis ein geiriau'n ofalus bob dydd.<br>Gad i ni ddweud geiriau caredig gan annog a chanmol ein gilydd am y pethau da rydym yn eu gwneud.<br>Amen. |

** Mae'r gwasanaethau yma yn addas ar gyfer eu defnyddio mewn gwersi hefyd*